**RHAGFYR 2024**

# CYMRU OED-GYFEILLGAR: EIN STRATEGAETH AR GYFER CYMDEITHAS SY'N HENEIDDIO

**Mae *Cymru o blaid pobl hŷn: Ein strategaeth ar gyfer cymdeithas sy'n heneiddio,* a gyhoeddwyd ym mis Hydref 2021, yn egluro sut byddwn ni'n gweithio gyda phartneriaid amrywiol i fynd i'r afael â'r ffactorau sy'n dylanwadu ar sut rydym ni'n heneiddio – o'n systemau iechyd, gofal cymdeithasol a thrafnidiaeth i'r ffordd rydym ni'n cymdeithasu, yn gweithio ac yn gofalu am eraill**.

**Mae'r adroddiad hwn yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf am gynnydd yn erbyn camau allweddol y Strategaeth sydd wedi effeithio ar bobl hŷn dros y deuddeg mis diwethaf.**

**Mae'r gwaith o weithredu'r Strategaeth yn cael ei fonitro diolch i gymorth ac arweiniad gwerthfawr gan Fforwm Cynghori'r Gweinidog ar Heneiddio.**

## £1.1 miliwn o gyllid i awdurdodau lleol

Fel ymateb i ffaith fod y boblogaeth fyd-eang yn heneiddio, fe wnaeth Sefydliad Iechyd y Byd (WHO) sefydlu Rhwydwaith Byd-eang y WHO o Ddinasoedd a Chymunedau Oed-gyfeillgar yn 2010. Mae'r Rhwydwaith yn canolbwyntio ar weithredu ar lawr gwlad sy'n meithrin cyfraniad llawn pobl hŷn mewn bywyd cymunedol ac yn hyrwyddo heneiddio'n iach ac egnïol. Ar hyn o bryd mae aelodaeth y Rhwydwaith yn cynnwys 1606 o ddinasoedd a chymunedau mewn 53 o wledydd, gan gwmpasu dros 330 miliwn o bobl ledled y byd. Mae Cymru'n cael ei pharchu fel enghraifft o arfer dda wrth greu cymunedau oed-gyfeillgar.

Mae creu cymunedau oed-gyfeillgar yn amcan allweddol yn ein Strategaeth ar gyfer Cymdeithas sy'n Heneiddio. Mae £1.1 miliwn y flwyddyn yn cael ei ddyrannu i awdurdodau lleol – £50,000 yr un – i ariannu swydd bwrpasol ar gyfer gweithgarwch oed-gyfeillgar. Mae'r cyllid yn cefnogi awdurdodau lleol i gael aelodaeth o Rwydwaith Byd-eang Sefydliad Iechyd y Byd a chynnwys pobl hŷn wrth gynllunio a darparu gwasanaethau lleol. Mae rhoi llais a phrofiadau pobl hŷn wrth wraidd y broses o lunio polisïau yn elfen hanfodol o greu Cymru oed-gyfeillgar.

Mae wyth awdurdod lleol bellach wedi ymuno â Rhwydwaith Byd-eang Sefydliad Iechyd y Byd - Caerdydd, Bro Morgannwg, Sir y Fflint, Ynys Môn, Gwynedd, Rhondda Cynon Taf, Ceredigion a Chasnewydd. Mae pedwar arall yn anelu at ddod yn aelodau yng ngwanwyn 2025 ac rydym yn rhagweld y bydd pob un wedi ennill aelodaeth erbyn diwedd tymor y llywodraeth hon yn 2026.

Mae'r berthynas waith agos rhwng Llywodraeth Cymru a Chomisiynydd Pobl Hŷn Cymru yn parhau er mwyn hyrwyddo a gwireddu ein gweledigaeth gyffredin o Gymru oed-gyfeillgar. Mae'r Comisiynydd yn cael ei gydnabod fel aelod cyswllt o Rwydwaith Byd-eang WHO ac mae'n rhoi arweiniad a chefnogaeth i awdurdodau lleol gyda'u ceisiadau.

Mae cyllid Llywodraeth Cymru ar gyfer swyddogion oed-gyfeillgar wedi arwain at ddatblygu ystod eang o weithgareddau yn y gymuned sy'n cynnig cymorth ataliol.

Mae'r cyllid hefyd yn caniatáu i awdurdodau lleol frocera partneriaethau newydd rhwng pobl hŷn a'r sector statudol a'r trydydd sector gyda'r nod cyffredin o weithio tuag at Gymru oed-gyfeillgar sy'n cefnogi pobl o bob oed i fyw a heneiddio'n dda.

Mae dadansoddiad o weithgarwch awdurdodau lleol yn dangos bod pob un ohonynt yn datblygu ffyrdd arloesol o gysylltu pobl hŷn â chyngor a gwybodaeth; dylanwadu ar ddatblygu gwasanaethau lleol, i wirfoddoli neu gymryd rhan mewn gweithgareddau heneiddio'n iach ac i frwydro yn erbyn unigrwydd ac unigedd.

Gofynnom i awdurdodau lleol roi amcangyfrif i ni o faint o bobl hŷn sy'n elwa ar fentrau oed-gyfeillgar, sy'n gysylltiedig â'r cyllid y maent yn ei dderbyn ar gyfer swydd oed-gyfeillgar. Cawsom ffigurau gan **18** awdurdod lleol, sy'n dangos bod **66,000 o bobl hŷn wedi elwa mewn rhyw ffordd ar weithgareddau oed-gyfeillgar** dros y 12 mis diwethaf hyd at fis Tachwedd 2024.

Roedd 33,000 a mwy naill ai wedi cymryd rhan mewn digwyddiad ymgysylltu wyneb yn wyneb, neu wedi bod mewn digwyddiad o'r fath, gyda 2000 yn cymryd amser i ymateb i arolwg neu ymgynghoriad.

Cais cyson gan bobl hŷn rydym ni'n ymwneud â nhw yw eu bod eisiau mwy o wybodaeth am ba weithgareddau sydd ar gael yn eu cymunedau. Dros y 12 mis diwethaf, llwyddwyd i gysylltu'n uniongyrchol â 23,000 o bobl gyda gwybodaeth am ddigwyddiadau a gweithgareddau lleol. Hefyd, mae pobl hŷn yn derbyn gwybodaeth am eu hawliau, yr hyn y gallan nhw ei hawlio, cymorth i ofalwyr di-dâl a mynediad at iechyd a gofal cymdeithasol.

Cyfeiriodd pob un o'r 22 awdurdod at ymgysylltu newydd yn eu cynllun gwaith cychwynnol. Mae llawer yn rhedeg fforwm 50+ sy'n cynnig cyfle i bobl hŷn ddylanwadu ar ddylunio a datblygu gwasanaethau lleol. Archwiliwyd llwybrau amgen i glywed gan bobl hŷn hefyd, sy'n arbennig o lwyddiannus wrth glywed gan bobl nad ydynt yn dymuno bod yn rhan o grwpiau ffurfiol.

Mae gweithio mewn partneriaeth traws-sector hefyd yn nodwedd allweddol o weithgarwch awdurdodau lleol - mae 21 o awdurdodau yn gweithio gydag ystod eang o bartneriaid o sefydliadau'r trydydd sector, gwirfoddolwyr, dinasyddion lleol, sefydliadau lleol a chenedlaethol. Mae awdurdodau lleol hefyd yn darparu prosiectau pontio'r cenedlaethau, cyfleoedd i wirfoddoli a gweithgareddau heneiddio'n iach.

Mae Llywodraeth Cymru yn parhau i ariannu pedwar grŵp cenedlaethol i bobl hŷn a Chynghrair Henoed Cymru, cynghrair o 23 o sefydliadau'r trydydd sector sy'n gweithio gyda phobl hŷn ac ar eu rhan. Cynrychiolir y grwpiau pobl hŷn hyn, Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru, arweinwyr gweithgarwch oed-gyfeillgar yr awdurdod lleol a Chynghrair Henoed Cymru i gyd ar Fforwm Cynghori'r Gweinidog ar Heneiddio.

**Yr ymdrech gydlynol a chyfunol hon sy'n cyfuno ymrwymiad cenedlaethol a chamau gweithredu lleol yw'r rheswm pam mae Cymru wedi'i nodi fel enghraifft ryngwladol o arfer dda fel rhan o fudiad byd-eang tuag at wella'r ddarpariaeth i bobl hŷn.**

## Brwydro yn erbyn rhagfarn ar sail oedran a hybu hawliau pobl hŷn

Mae'r Ymgyrch Hawliau Pobl Hŷn, a ariannwyd yn wreiddiol gan Lywodraeth Cymru yn 2022, yn parhau i gael effaith. Mae Age Cymru wedi hyfforddi grŵp o lysgenhadon gwirfoddol i godi ymwybyddiaeth o hawliau dynol ac mae'n parhau i hyrwyddo'r [pecyn cymorth Hawliau Dynol] yn eu cymunedau eu hunain.

Paratowyd canllawiau Eich hawliau i gael gofal a chymorth fel person hŷn er mwyn rhoi gwybod i bobl hŷn, eu ffrindiau a'u teulu am eu hawliau mewn lleoliad gofal a chymorth. Cafodd ei gynhyrchu ar y cyd gan Lywodraeth Cymru, Age Cymru, Gofal Cymdeithasol Cymru, pobl hŷn, cynrychiolwyr o'r trydydd sector a Chomisiynydd Pobl Hŷn Cymru. Paratowyd fersiwn ychwanegol ar gyfer darparwyr gofal.

Ym mis Medi 2024, trefnwyd gweithgor gydag aelodau Fforwm Cynghori'r Gweinidog ar Heneiddio i ystyried effaith rhagfarn ar sail oedran a gwahaniaethu ar sail oedran ar unigolion hŷn yma yng Nghymru. Nod y grŵp yw cychwyn trafodaeth genedlaethol ar ragfarn ar sail oedran a fydd yn dylanwadu ar newid cadarnhaol mewn agweddau tuag at bobl hŷn a heneiddio. Mae Age Cymru yn hwyluso cyfres o grwpiau ffocws i sicrhau bod lleisiau a phrofiadau pobl hŷn yn llywio'r gwaith hwn.

## GWELLA LLESIANT

**Gofalwyr di-dâl**

Mae ein Strategaeth Genedlaethol ar gyfer Gofalwyr Di-dâl yn cynrychioli ein hymrwymiad i wella'r ffordd y mae gofalwyr di-dâl yn cael eu cydnabod a'u cefnogi. Mae'n nodi ein blaenoriaethau cenedlaethol ar gyfer gofalwyr di-dâl mewn pedwar maes blaenoriaeth allweddol. Mae'r strategaeth yn seiliedig ar gynllun cyflawni ac adroddiad blynyddol. Byddwn yn adolygu'r strategaeth yn ddiweddarach yn 2024.

Mae £9 miliwn dros dair blynedd (2022-2025) wedi'i ddyfarnu i Gofalwyr Cymru i sefydlu a chyflwyno cynllun seibiant byr newydd i ofalwyr di-dâl; gyda'r nod o gynyddu cyfleoedd i ofalwyr gael seibiant a mwynhau bywyd ochr yn ochr â'u rôl ofalu.

Hefyd, mae £4.5 miliwn wedi'i fuddsoddi dros dair blynedd (2022-2025) ar gyfer y Gronfa Cymorth i Ofalwyr. Gweinyddir y gronfa gan Ymddiriedolaeth Gofalwyr Cymru ac mae'n darparu grantiau o hyd at £300 i ofalwyr sy'n cael trafferth ymdopi ag effaith yr argyfwng costau byw. Mewn rhai ardaloedd, roedd 70% o'r ymgeiswyr yn ofalwyr a oedd cynt yn anhysbys, ond sydd bellach yn gallu manteisio ar ystod o wasanaethau cymorth gan gynnwys cyngor ariannol.

Mae £1 miliwn yn cael ei ddarparu i fyrddau iechyd drwy'r Gronfa Integreiddio Rhanbarthol i gefnogi gofalwyr di-dâl pan fydd y sawl maen nhw'n gofalu amdano yn cael ei dderbyn i'r ysbyty neu ei ryddhau o'r ysbyty. Yn ogystal, mae canllawiau'r Gronfa hon yn nodi bod yn rhaid i ranbarthau ddyrannu o leiaf 5% ar gyfer cymorth uniongyrchol i ofalwyr di-dâl. Yn ail flwyddyn y Gronfa, cyfanswm y gwariant ar draws Cymru oedd £9.3m sy'n cyfateb i 9% o'r Gronfa. Mae hyn yn golygu ei fod yn 4% yn fwy na'r isafswm y mae'n rhaid ei fuddsoddi bob blwyddyn.

Fe wnaeth Llywodraeth Cymru gomisiynu Cymdeithas Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru i gynnal adolygiad cyflym o sut mae hawliau gofalwyr di-dâl yn cael eu cynnal. Cyhoeddwyd yr adroddiad ym mis Tachwedd 2023. Gofynnodd y Dirprwy Weinidog Gwasanaethau Cymdeithasol blaenorol i Grŵp Cynghori'r Gweinidog ar Ofalwyr Di-dâl sefydlu gweithgor i edrych ar y canfyddiadau. Mae'r grŵp gorchwyl a gorffen yn canolbwyntio ar ddarparu gwybodaeth, cyngor a chymorth i ofalwyr di-dâl ac ar gyfer asesiadau anghenion gofalwyr. Ar hyn o bryd rydym yn gweithio'n agos gydag awdurdodau lleol i hunanasesu a nodi arferion da, gyda'r bwriad o gydgynhyrchu canllawiau arfer dda gydag awdurdodau lleol a gofalwyr di-dâl.

**Mynediad at wasanaethau meddyg teulu**

Dros y tair blynedd diwethaf, rydym ni wedi cymryd sawl cam i'w gwneud hi'n haws i bobl yng Nghymru gysylltu â'u meddyg teulu a gwneud apwyntiad - rydym ni’n buddsoddi £12 miliwn dros 3 blynedd o fis Ebrill 2022 er mwyn helpu meddygfeydd i feithrin gallu drwy staff ychwanegol i gefnogi mynediad gwell. Gyda chyflwyno’r Contract Unedig newydd ym mis Hydref 2023, rydym ni wedi gorfodi trwy gontract y systemau y mae’n rhaid iddynt ar waith mewn meddygfeydd a'r wybodaeth y mae'n rhaid iddynt ei darparu i gleifion ar sut i drefnu apwyntiad i sicrhau cysondeb ledled Cymru. Er mwyn mynd i'r afael â phryderon ynglŷn â'r ras am apwyntiadau am 8 y bore, rydym wedi cyflwyno Ymrwymiad Mynediad sy'n ei gwneud yn ofynnol i feddygfeydd fabwysiadu model mynediad cyfun, gan gynnig cymysgedd o apwyntiadau o bell, wyneb yn wyneb, brys, ar y dydd ac apwyntiadau y gellir eu trefnu ymlaen llaw. Ym mis Mawrth 2024, cadarnhaodd 97% o feddygfeydd eu bod yn cyflawni'r Ymrwymiad hwn, gan awgrymu bod y gwelliannau hyn yn ennill eu plwyf yn y maes ymarfer cyffredinol.

Rydym ni wrthi'n adolygu ein Safonau Mynediad. Mae'r adroddiad diweddar gan Gomisiynydd Pobl Hŷn Cymru ar fynediad at feddygon teulu yn tynnu sylw at brofiadau pobl hŷn wrth ddefnyddio gwasanaethau meddyg teulu. Mae'r adroddiad yn cynnwys gwybodaeth bwysig i fwydo i mewn i'n gwerthusiad ac yn ein gwahodd i fyfyrio ar sut y gallai fod angen teilwra ein cynnig mynediad i anghenion grwpiau penodol er mwyn sicrhau mynediad teg at wasanaethau. Mae swyddogion yn parhau i weithio gyda'r Comisiynydd Pobl Hŷn ar ymgysylltu pellach â'r proffesiwn meddygon teulu a'r cyhoedd.

Mae'r rhaglen hyfforddi arbenigol ar gyfer meddygon teulu wedi ehangu'n sylweddol dros y tair blynedd diwethaf - ers lansio'r ymgyrch Hyfforddi Gweithio Byw, mae cynnydd sylweddol wedi bod yn y gyfradd lenwi ar gyfer hyfforddiant meddygon teulu. Mae'r targed recriwtio presennol o 160 o feddygon teulu newydd bob blwyddyn yn cael ei gyflawni'n gyson.

Mae ymgyrch farchnata Hyfforddi Gweithio Byw wedi gweithio gyda phartneriaid i sicrhau cynnydd sylweddol yn y nifer sy'n derbyn lleoedd hyfforddi fel meddygon teulu dros y blynyddoedd diwethaf. Cafodd 199 o hyfforddeion eu recriwtio yn 2023.

Rydym ni wedi cynnig cymhellion ariannol hefyd i ddenu meddygon teulu dan hyfforddiant i gynlluniau hyfforddi arbenigol yng ngogledd a gorllewin Cymru, ardaloedd sydd wedi bod yn anodd recriwtio iddynt yn y gorffennol.

**Mynediad at Wasanaethau Gwybodaeth, Cyngor a Chymorth (IAA) Awdurdodau Lleol**

Ar hyn o bryd rydym ni’n adolygu gwasanaethau gwybodaeth, cyngor a chymorth ym mhob un o'r awdurdodau lleol ledled Cymru, a sut y cânt eu darparu'n lleol. Bydd hyn yn ein galluogi i ddeall pa lefel o gefnogaeth, cyfathrebu a mynediad "drws ffrynt" i wasanaethau gwybodaeth, cyngor a chymorth sy'n cael ei gynnig i bobl am eu dewisiadau gofal a chymorth. Bydd yr adolygiad mewnol hwn yn ein cynorthwyo i ddatblygu ein cynllun gweithredu ein hunain i gryfhau’r gwasanaethau hyn.

**Gwasanaeth Gofal Cenedlaethol i Gymru**

Cyhoeddwyd ‘Tuag at Wasanaeth Gofal a Chymorth Cenedlaethol: cynllun gweithredu cychwynnol’ ar 14 Rhagfyr 2023 ac mae gwaith ar droed i gyflawni

cynllun gweithredu Cam 1. Byddwn yn comisiynu sawl darn o ymchwil i helpu i ddatblygu ystyriaethau tymor hwy ar gyfer y Gwasanaeth Gofal Cenedlaethol. Cyn bo hir, bydd swyddogion yn tendro sawl darn o waith ymchwil, yn benodol:

- Methodolegau ffioedd –
  - Bydd yr ymchwil hon yn ymchwilio i ddichonoldeb creu methodoleg genedlaethol ar gyfer ffioedd, gan gynnwys lleoliadau mewn cartrefi gofal. Bydd hyn yn cysylltu â'n Fframwaith Cenedlaethol a lansiwyd yn ddiweddar ar gyfer Gofal a Chymorth a Gomisiynwyd.
- Talu am ofal a chyllid yn y dyfodol –
  - Bydd ymchwil yn ystyried lefel y gwariant ar ofal cymdeithasol ataliol a gomisiynwyd (o gymharu â chyfanswm y gwariant ar ofal cymdeithasol) fesul ardal awdurdod lleol, yn flynyddol dros y 10 mlynedd diwethaf.
  - Hefyd, bydd ymchwil yn dechrau gyda Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru a Chonffederasiwn GIG Cymru i asesu'r lefel ofynnol o fuddsoddiad i lywio cyfeiriad polisi yn y dyfodol.
  - Yn olaf, bydd ymchwil hefyd yn ystyried sut y gall cyfundrefn codi tâl esblygu'n system yng Nghymru lle mae'r rhan fwyaf o ofal dibreswyl yn cael ei ddarparu am ddim pan fo'i angen.

Yn ogystal ag ymchwil, mae gwaith yn cael ei wneud i gwblhau'r Rhaglen Ailgydbwyso Gofal a Chymorth sydd â thri phrif amcan;

- Sefydlu fframwaith cenedlaethol ar gyfer comisiynu gofal a chymorth
- Sefydlu swyddfa genedlaethol ar gyfer gofal a chymorth o fewn Llywodraeth Cymru.
- Cryfhau gweithio mewn partneriaeth ac integreiddio gwasanaethau.

Mae'r rhaglen hon yn gosod blociau adeiladu pwysig ar waith tuag at greu Gwasanaeth Gofal Cenedlaethol, ac mae'r gwaith hwn bellach yn cael ei ddatblygu fel ffrwd waith yn rhaglen y Gwasanaeth Gofal Cenedlaethol.

Mae gwaith arall sydd ar y gweill fel rhan o'r symudiad tuag at Wasanaeth Gofal Cenedlaethol yng Nghymru yn cynnwys creu rôl Gweithiwr Cymdeithasol Ymgynghorol. Bydd y rôl hon yn rhan o BASW Cymru a bydd yr ymgeisydd llwyddiannus yn cynghori'n benodol ar ddarparu ymarfer gwaith cymdeithasol a datblygiad proffesiynol y rhai sy'n gweithio yn y sector i sicrhau datblygiad ymarfer wrth weithio gydag unigolion sydd mewn perygl o anfantais ar sail eu hil a/neu ethnigrwydd.

Hefyd, mae gwaith newydd ddechrau sefydlu mecanwaith Fforwm Dinasyddion a gaiff ei reoli gan y Swyddfa Genedlaethol Gofal a Chymorth newydd ei ffurfio. Bydd yn cefnogi Prif Swyddog Gofal Cymdeithasol Cymru yn uniongyrchol i ymgysylltu â defnyddwyr gwasanaeth a'u gofalwyr. Mae swyddogion yn gweithio'n agos gyda Llais a rhanddeiliaid allweddol eraill sy'n cynrychioli dinasyddion.

## GWELLA GWASANAETHAU AC AMGYLCHEDDAU LLEOL.

**Trafnidiaeth**

Yn ystod y Pasg 2022, fe wnaethom gyhoeddi ein Papur Gwyn yn nodi ein cynlluniau i reoleiddio'r diwydiant bysiau. Byddwn yn cyflwyno amrywiaeth o ddiwygiadau gan gynnwys masnachfreinio gwasanaethau bysiau, caniatáu i awdurdodau lleol greu cwmnïau bysiau newydd sy'n eiddo i'r cyngor a llacio'r cyfyngiadau ar gwmnïau bysiau sy'n eiddo i'r cyngor presennol.

Law yn llaw â Trafnidiaeth Cymru (TrC) cyhoeddom "Diwygio'r bysiau yng Nghymru: ein map ffordd i fasnachfreinio" ym mis Mawrth 2024 i esbonio pam ein bod yn cyflwyno'r newidiadau hyn, ein gweledigaeth ar gyfer gwasanaethau bysiau yng Nghymru a sut byddwn ni'n troi'r weledigaeth hon yn ffaith.

Mae Adran Drafnidiaeth y DU yn cyflwyno Rheoliadau Gwybodaeth Hygyrch newydd ar gyfer gweithredwyr bysiau a fydd yn berthnasol ar draws gwledydd Prydain. Rhwng 2024 a 2026 bydd yn dod yn orfodol i'r rhan fwyaf o wasanaethau bysiau a choetsis lleol ddarparu gwybodaeth hygyrch ar fysiau, gan gynnwys mewn fformatau clywadwy a gweledol. Byddwn yn gweithio gyda'n rhanddeiliaid i sicrhau bod y rheoliadau'n cael eu gweithredu a chydymffurfiaeth â nhw yng Nghymru.

Rydym ni wedi ymrwymo i gynnal ein cynllun teithio rhatach i bobl hŷn a phobl anabl, sy'n galluogi pobl gymwys i deithio am ddim ar y rhan fwyaf o wasanaethau bysiau yma yng Nghymru a chael teithio am ddim neu am bris rhatach ar lawer o wasanaethau trenau.

Bydd deiliaid cerdyn teithiau bws rhatach sydd angen cymorth gan berson arall wrth deithio yn gallu gwneud cais am Gerdyn Cydymaith gan eu hawdurdod lleol. Bydd hyn yn galluogi un person sy'n teithio gyda nhw i deithio'n rhad ac am ddim.

## NOD 3: MEITHRIN A CHYNNAL GALLUOGRWYDD POBL

### Cynhwysiant Digidol

Mae Arolwg Cenedlaethol Cymru'n darparu ein mesur blynyddol o ran cynnydd yn erbyn y dangosydd cenedlaethol. Pobl hŷn yw'r grŵp sy'n parhau i fod fwyaf tebygol o gael ei eithrio'n ddigidol o hyd, gyda 32% o bobl 75 oed a throsodd yng Nghymru all-lein.

Mae swyddogion wedi bod yn gweithio gyda rhanddeiliaid ehangach a MapDataCymru i greu map rhyngweithiol, a fydd ar ôl ei gyhoeddi yn caniatáu i'r rhai sy'n helpu pobl chwilio fesul cod post am lefydd sy'n cynnig cymorth digidol. Mae disgwyl fersiwn newydd o'r map ddiweddarach eleni.

Fe wnaeth Llywodraeth Cymru gomisiynu Prifysgol Lerpwl i archwilio'r cysyniad o safon ofynnol ar gyfer bywyd digidol (MDLS) ar gyfer Cymru. Daeth yr ymchwil i ben ym mis Tachwedd 2023 ac fe'i cynlluniwyd fel dull consensws, gan ddarparu diffiniad a rhestr o nwyddau a sgiliau digidol y mae dinasyddion yn eu hystyried yn ofynnol i ymwneud â'n cymdeithas ddigidol. Fe wnaeth y gwaith elwa ar ymchwil y DU a ariannwyd gan Sefydliad Nuffield a ddatblygodd brawf o gysyniad yn canolbwyntio ar aelwydydd â phlant.

Mae swyddogion wrthi'n rheoli grant cyfalaf o £50,000 i dreialu'r safon ofynnol ar gyfer bywyd digidol am 9 mis gyda dwy gymdeithas tai cymdeithasol - Tai Sir Fynwy a Gogledd Cymru. Nod y cynllun peilot yw ehangu ein gwybodaeth am effaith MDLS ar rannau gwahanol o'r boblogaeth drwy ariannu cymdeithasau tai i ddarparu dyfeisiau/technoleg ddigidol i sicrhau bod preswylwyr yn bodloni'r diffiniad o MDLS.

Mae contract Cymunedau Digidol Cymru: hyder digidol, iechyd a llesiant wedi'i ymestyn tan fis Mehefin 2025. Bydd hyn yn sicrhau bod ymyriadau parhaus a phriodol ar waith a bod gan sefydliadau raglen ganolog a sefydledig i droi ati am gymorth.

Gan fod disgwyl i'r rhaglen flaenllaw gyfredol ar gyfer cynhwysiant digidol - Cymunedau Digidol Cymru - ddod i ben, rydym ni'n manteisio ar y cyfle hwn i ddechrau ymgysylltu'n ddwys ar gam nesaf y gwaith cynhwysiant digidol yng Nghymru. Rydym ni'n ymgysylltu'n fwriadol eang ac yn croesawu pob barn. Bydd opsiynau ar gyfer darpariaeth cynhwysiant digidol yn y dyfodol yn cael eu cyflwyno i Ysgrifennydd y Cabinet yn gynnar yn 2025.

Drwy weithio'n agos ag arweinwyr seilwaith Llywodraeth Cymru a'r Adran dros Dechnoleg Ddigidol, Diwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon (DCMS) rydym ni'n edrych ar ffyrdd o godi ymwybyddiaeth o dariffau cymdeithasol ar gyfer band eang a ffonau symudol. Mae tariff cymdeithasol yn opsiwn cost is ar gyfer naill ai cysylltedd sefydlog neu symudol sy'n gymwys i bobl sy'n derbyn budd-daliadau - gan gynnwys credyd pensiwn.

Wrth weithio ar draws sectorau, mae Llywodraeth Cymru'n parhau i godi ymwybyddiaeth o'r angen i sicrhau bod opsiynau ar gyfer ymgysylltu â gwasanaethau'n cael eu datblygu'n seiliedig ar anghenion y defnyddiwr ac yn ystyried y rhai sydd naill ai'n methu ag ymgysylltu'n ddigidol neu'n dewis peidio. Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru sydd wedi arwain y gwaith hwn drwy'r canllawiau 'Cael yr wybodaeth a'r gwasanaethau sydd eu hangen arnoch mewn byd digidol: Deall Eich Hawliau'.

**Gwirfoddoli**

Bydd sut a pham mae pobl yn gwirfoddoli'n newid, a dulliau newydd ac arloesol o helpu mudiadau'r trydydd sector i ddenu a chadw gwirfoddolwyr, yn cael eu hategu gan weledigaeth newydd a blaengar i yrru gwirfoddoli yng Nghymru.

Bydd y Grŵp Arwain Traws-sector ar Wirfoddoli, a sefydlwyd drwy Gyngor Partneriaeth y Trydydd Sector, yn arwain ar ddatblygu gweledigaeth dros y 12 mis nesaf.

Bydd y grŵp yn cyd-ddylunio dull newydd o wirfoddoli yng Nghymru er mwyn cyflwyno gweledigaeth unedig ac unigryw Gymreig ar gyfer gwirfoddoli yng Nghymru a fframwaith ar gyfer ei gwireddu.

Dros y misoedd nesaf bydd y broses gyd-ddylunio, gan gynnwys trwy arolygon a gweithdai, yn rhoi cyfle i bawb sydd â diddordeb i helpu i lunio dyfodol gwirfoddoli.

## NOD 4: TRECHU TLODI SY'N GYSYLLTIEDIG AG OEDRAN

Yn sgil penderfyniad Llywodraeth y DU i newid meini prawf cymhwystra ar gyfer Taliad Tanwydd y Gaeaf, mae Llywodraeth Cymru yn parhau i weithio'n agos gyda Llywodraeth y DU i gynyddu'r nifer sy'n manteisio ar Gredyd Pensiwn.

Yn ddiweddar, gwnaethom gefnogi wythnos o weithredu y DU ar ein sianeli cyfryngau cymdeithasol ac rydym ni wedi gweithio gyda'n partneriaid fel rhan o ymdrech gydlynol i hybu'r Credyd Pensiwn. Er mwyn cyrraedd pobl hŷn sydd wedi'u hallgáu'n ddigidol, datblygwyd poster i'w arddangos mewn meddygfeydd,

canolfannau brechu a llefydd eraill y gallai pobl hŷn ymweld â nhw’n rheolaidd. Mae adnoddau pellach yn cael eu datblygu sy'n ceisio annog pobl iau i drafod gydag aelodau o'r teulu a allai fod yn colli allan ar eu hawl i Gredyd Pensiwn.

Mae'n dod yn amlwg bod pobl hŷn yn ymateb i'r newidiadau i feini prawf cymhwystra Taliad Tanwydd y Gaeaf trwy wneud cais am Gredyd Pensiwn. Ar 9 Medi cyhoeddodd DWP ystadegau ad hoc sy'n dangos bod 115% yn fwy o hawliadau am Gredyd Pensiwn wedi'u derbyn yn ystod y pum wythnos diwethaf o'i gymharu â'r 5 wythnos cyn 29 Gorffennaf.

Bydd Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyfiawnder Cymdeithasol, y Trefnydd a'r Prif Chwip yn cadeirio cyfarfod dwyochrog nesaf y Grŵp Rhyngweinidogol ar Waith a Phensiynau ac mae'n bwriadu trafod gyda'r Ysgrifennydd Gwladol dros Waith a Phensiynau sut y gall y ddwy lywodraeth gydweithio i amddiffyn pobl hŷn y gaeaf hwn.

Ers i'r Gronfa Gynghori Sengl gael ei chyflwyno ym mis Ionawr 2020, mae gwasanaethau wedi helpu 250,000 a mwy o bobl i ddelio â dros filiwn o broblemau lles cymdeithasol. Rhoddwyd cymorth i rai hawlio incwm ychwanegol o £132.9 miliwn a dilëwyd gwerth cyfanswm o £36.1 miliwn o ddyledion.

Mae pobl hŷn yn grŵp blaenoriaeth allweddol ar gyfer holl wasanaethau'r Gronfa Gynghori Sengl. Mae 38% o'r holl bobl sy'n defnyddio gwasanaethau cyngor a chymorth yn bobl hŷn - yn ystod y flwyddyn ariannol ddiwethaf, cafodd dros 15,000 o bobl 65+ oed gymorth i hawlio incwm budd-daliadau lles.

Lansiwyd Siarter Budd-daliadau Cymru ym mis Ionawr 2024, sef set arweiniol o egwyddorion ar gyfer dylunio a chyflawni Budd-daliadau Cymru. Mae pob un o'r 22 Awdurdod Lleol wedi ymrwymo iddi. Mae'n nodi'r weledigaeth ar gyfer dull cynhwysol sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn o ddarparu Budd-daliadau Cymru, lle mai dim ond unwaith y mae'n rhaid i berson adrodd ei stori er mwyn gallu cael ei holl hawliau ariannol.

Fel rhan o waith datblygu'r Siarter, bu swyddogion yn ymgysylltu â'r Comisiynydd Pobl Hŷn a mynychu digwyddiad Cynghrair Age Cymru i glywed adborth yn uniongyrchol gan fynychwyr, pobl hŷn sy'n hawlio budd-daliadau.